5

# Beth yw effaith pobl ar gynefinoedd coedwig/caeau?

Effaith Negyddol

**Bwriad Dysgu**

- Cynyddu ymwybyddiaeth y gall ardal leol gynnwys sawl cynefin gwahanol.
- Annog disgyblion i ystyried effaith pobl ar yr amgylchedd.
- Datblygu sgiliau darllen map.

**Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Saesneg -** Cyfathrebu, yn glir ac yn hyderus, gan fynegi barn ac addasu'r sgwrs yn ôl diben a chynulleidfa, gan ddefnyddio ystum, goslef a chywair yn briodol i gynnwys y dysgwr.

**Daearyddiaeth -** Nodi a lleoli lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau a mapiau.

Nodi a disgrifio nodweddion naturiol a dynol.

**Amlinelliad o'r Gweithgaredd**

- ✱ Astudio braslun map, adnabod nodweddion allweddol.
- ✱ Map côd lliw a chreu allwedd.
- ✱ Defnyddio fframiau ysgrifennu i drafod effaith pobl.

**Adnoddau**

Braslunio map

Pensiliau lliw

Fframiau ysgrifennu

Nodiadau i athrawon

Cyn y wers, ymweld â choedwig leol – darlunio map o lwybr syml (CA2 is) neu astudio map awyrol (CA2 uwch). Mae mapiau Google a mapiau ordnans lleol yn adnoddau gwerthfawr.

# Sut rydyn ni'n effeithio ar ein hamgylchedd...?

**Amlinelliad o'r Wers**

- Astudio'r braslun map ac adnabod y nodweddion allweddol canlynol:
    1. Nant
    2. Pwll
    3. Caeau
    4. Bryn (grug a gwair garw).
    5. Coed fferm ar hyd afon ac o amgylch caeau
    6. Fferm ac adeiladau fferm
    7. Grid, graddfa ac allwedd
- DTrafod sawl cynefin sydd ar y map: pwll / coed / nant / caeau.
- Cyfeirio at Nodiadau Rhywogaethau am rai o'r anifeiliaid a phlanhigion gwyllt pwysicaf a mwyaf dan fygythiad yn yr amgylchedd (bydd llawer o anifeiliaid a phlanhigion gwyllt eraill sy'n fwy cyffredin).
- Rhowch gôd lliw i'r map i ddangos y gwahanol gynefinoedd, ac ychwanegwch y lliwiau at yr allwedd i greu Map Cynefin.
- Defnyddiwch y ffrâm ysgrifennu i ysgogi trafodaeth rhwng y plant mewn grwpiau i ddechrau, yna fel dosbarth llawn.

"Sut rydyn ni'n cael effaith ar yr amgylchedd? mewn perygl

“Sut gallwn leihau neu hyd yn oed wedi diflannu?" yr effaith hwn?

# Sut rydyn ni'n effeithio ar ein hamgylchedd?

Gweithiwch yn eich grŵp i drafod y materion.
Ysgrifennwch unrhyw bwyntiau diddorol sydd gennych i'w rhannu â'r dosbarth yn ddiweddarach.

Sut byddai chwistrellu plaleiddiad ar y chwyn yn effeithio ar boblogaeth pryfed yn yr ardal?

A yw hi'n bosib i fochyn daear deithio o'r dwyrain i'r gorllewin heb adael lloches coedwig neu berth?
Pam fyddai hyn yn bwysig?

Petai pob coeden yn cael ei glirio ger yr afon, beth fyddai'n digwydd i fywyd gwyllt yn yr ardal?

Beth fyddai'n digwydd i'r bywyd gwyllt mewn pwll ac o gwmpas pwll petai'n cael ei ddraenio?

# Sut rydyn ni'n effeithio ar ein hamgylchedd?

Gweithiwch yn eich grŵp i drafod y materion.
Ysgrifennwch unrhyw bwyntiau diddorol sydd gennych i'w rhannu â'r dosbarth yn ddiweddarach.

Bydd heol newydd yn mynd drwy'r fferm. Beth fydd effaith hon?

Pam na ddylai'r ffermwr dorri ei berthi a'i goed yn ystod yr haf?
Pam byddai hyn yn bwysig?

Mae'r ffermwr am gyfuno neu uno caeau. Mae angen iddo waredu'r perthi sy'n eu gwahanu. Beth fydd effaith hyn ar fywyd gwyllt yn yr ardal? Mae'r ffermwr yn penderfynu gadael "ffin cae" o gwmpas ymylon y caeau.

Ni fydd yn torri, gwrteithio na chwistrellu plaleiddiaid ar y lleiniau hyn. Beth yw manteision y lleiniau hyn?




**Allwedd**

1. Derwen
2. Llygoden y Coed
3. Tylluan Wen
4. Melyn yr Eithin
5. Y Chwistlen Leiaf
6. Carlwm
7. Bras y Gors
8. Tamaid y Cythraul
9. Brith y Gors
10. Madfall y Dwr

0 ½ KM

Graddfa

- Nant
- Perth/Gwrych
- Pwll
- Adeiladau fferm
- Coedwig
- Tir Corsiog
- Bryn (grug a gwair garw)